
Coeden Ddarllen Rhydychen

# Y Peiriant Hedfan





Roedd Nadim yn y maes awyr gyda'i fam a'i dad. Roedden nhw wedi bod yn America ar wyliau. Nawr roedd hi'n amser hedfan adref.

Roedd tad Nadim yn nerfus.

"Dwi ddim yn hoffi hedfan," meddai. "Rwy'n casáu pan fo'r awyren yn codi."

"Dw *i* ddim," meddai Nadim. "Rwy wrth fy modd."



Ar y daith roedd syrpréis i Nadim. Gofynnodd y stiward iddo a hoffai weld yr offer rheoli.

Roedd Nadim yn llawn cyffro. Roedd e wastad wedi dymuno gweld bwrdd hedfan awyren.

“O gwych!” meddai. “Hoffwn, plîs.”







Aeth y stiward â Nadim a’i dad drwy’r awyren.

“Mae’r awyrennau hyn yn anferth,” meddai Nadim.

“Maen nhw’n dal tua phedwar cant o bobl,” meddai’r stiward.

“Dyna lawer o bobl mewn un awyren,” meddai Nadim.



Aeth Nadim a'i dad i'r bwrdd hedfan. Cawson nhw gyfarfod â'r capten.

"Rydyn ni'n hedfan ar awtopeilot," meddai'r capten. "Mae'r awyren yn hedfan ei hun."

Edrychodd Nadim ar yr offer i gyd.

"Baswn i'n hoffi bod yn beilot," meddai.



"Mae'n cymryd amser hir i ddysgu," meddai'r Capten. "Ond beth sydd i dy atal di?"

"Peidiwch â gadael iddo weithio'r offer eto," pryfociodd tad Nadim. "Rwy'n deithiwr nerfus."

"O Dad!" meddai Nadim.



Wedi i Nadim gyrraedd gartref, aeth i chwarae yn nhŷ Cad a Dids.

Roedd Anneena yno yn barod.

Dywedodd Nadim wrth bawb am ei wyliau.

“Es i ar fwrdd hedfan yr awyren,” meddai.

“Carwn i fod yn beilot,” meddai Anneena.






Galwodd Mam ar Cad a Dids. Roedd yn rhaid iddyn nhw fynd lawr y grisiau i helpu golchi’r llestri.

“Fyddwn ni ddim yn hir,” meddai Dids.

Cododd Anneena yr allwedd hud. Yn sydyn dechreuodd ddisgleirio.

Aeth ag Anneena a Nadim ar antur.



Aeth yr hud â Nadim ac Anneena yn ôl mewn amser. Aeth â nhw i le yn America.

"Pam mae'r allwedd hud wedi dod â ni i'r lle hwn?" gofynnodd Anneena.


Clywon nhw sŵn peiriant. Roedd y sŵn yn dod o gwmwl enfawr o lwch.



Roedd dyn yn gyrru tuag atyn nhw mewn car rhyfedd yr olwg.

"Beth yn y byd yw e?" gofynnodd Nadim. "Mae'n edrych fel car hen iawn."

"Fedrwch chi ddim sefyll fan yna!" galwodd y dyn. "Byddwch yn sefyll yn ffordd y peiriant hedfan."



Roedd awyren ryfedd yr olwg yn sefyll yn ymyl ysgubor. Doedd Nadim ac Anneena erioed wedi gweld ei thebyg.

Roedd dyn arall yn gweithio ar yr awyren.

Aeth y dyn cyntaf allan o'r car ac aeth draw ato fe.



Ebychodd Anneena. Roedd y ddau ddyn yn edrych yn debyg i'w gilydd.

"Rhaid eu bod yn efeilliaid," meddai wrth Nadim.

"Helo," meddai'r ail ddyn. "Harri ydw i a dyma fy ngefell, Parri. Pwy ydych chi?"

"Nadim ydw i. Dyma Anneena," meddai Nadim.



“Dydych chi ddim yn ysbïo arnon ni, ydych chi?” gofynnodd Parri.

“Pam fydden ni’n gwneud hynny?” gofynnodd Anneena.

“Rydyn ni ar fin rhoi tro ar y peiriant hedfan,” meddai Harri, “ond mae’n gyfrinach.”

“Does neb wedi gwneud peiriant hedfan o’r blaen,” meddai Parri. “Ni fydd y bobl gyntaf i’w wneud.”






“Mae’n rhyfeddol,” meddai Nadim. “Dydyn ni ddim wedi gweld awyren fel hon o’r blaen.”

Chwarddodd yr efeilliaid. “Awyr hen,” meddai Parri. “Dyna enw da arno – awyr hen!”

“Ond fydd hi byth yn hedfan,” meddai Anneena.

“Wrth gwrs y bydd hi,” meddai Harri.



Eisteddodd Parri yn y peiriant hedfan.

"Rwy'n barod!" meddai.

Taniodd Harri y peiriant.

Dechreuodd y sgriw yrru droi. Trodd yn gyflymach ac yn gyflymach. Ond symudodd y peiriant hedfan ddim.

"Dywedais i wrthoch chi," meddai Anneena.






"Y sgriw yrru yw hi," meddai Anneena. "Wnaiff hi byth weithio. Mae'n rhy wastad."

Cododd ddau ddarn o bren.

"Mae angen iddi fod fel hyn," meddai. "Mae'n gweithio fel sgriw i dynnu'r awyren drwy'r awyr."

"Wel, fe allwn roi tro arni," meddai Harri.



Newidiodd y gefeilliaid siâp y sgriw yrru.

"Ond wnaiff hi ddim hedfan," meddai Nadim. "Adain wastad sydd gyda chi. Does yna ddim ffordd o wneud iddi godi. Sut bydd hi'n esgyn?"

"Ha!" meddai Parri. "Rydyn ni wedi gwneud ramp! Po gyflymaf yr awn ni, yr uchaf yr hedfanwn ni."





Dringodd Parri i'r awyren. Taniodd Harri y peiriant.

"Cawn weld os ydych chi'n gywir," bloeddiodd.

Trodd y sgriw yrru a dechreuodd yr awyren symud yn gyflymach ac yn gyflymach.

"Mae'n gweithio!" gwaeddodd Harri.

"Ond wnaiff hi ddim hedfan," meddai Nadim.



Sgrialodd yr awyren ar hyd y ramp ar y cyflymder mwyaf. Cododd i'r awyr fel aderyn trwm.

"I – ha!" galwodd Harri. "Mae'n hedfan."

Hedfanodd yr awyren yn syth i fyny. Aeth am yn ôl mewn cylch. Yna plymiodd tua'r ddaear.

"Help!" bloeddiodd Parri.





Trawodd yr awyren y llawr gyda sŵn trwm. Taflwyd Parri allan.

Roedd yr awyren yn dal i deithio ar y cyflymder mwyaf. Rhuodd tuag at Nadim ac Anneena.

"Stopiwch hi!" bloeddiodd Parri.

"Cymerwch ofal!" gwaeddodd Harri.




Fedrai neb roi stop ar yr awyren. Teithiodd tuag at danc dŵr mawr.

"Mae'n mynd i daro'r tanc dŵr!" ebychodd Nadim.

Aeth yr awyren dan y tanc dŵr. Torrodd yr adenydd i ffwrdd, ond aeth yr awyren ymlaen.

"Dyw hi ddim wedi stopio," meddai Harri.






Arafodd yr awyren ddim. Rhuodd ymlaen tuag at fferm.

Neidiodd Parri a Harri i'w car a'i dilyn hi.

"Mae un peth yn siŵr," meddai Nadim wrth Anneena, "mae dy sgriw yrru yn gweithio'n dda."



Roedd mam a thad Harri a Parri yn byw ar y fferm.

Roedd eu mam newydd olchi dillad. Roedd yn eu rhoi ar y lein i sychu.

Roedd eu tad yn dyfrhau ei felonau a'i bwmpenni gorau.



Dilynodd Harri a Parri. Dilynodd Nadim ac Anneena nhw.

"Esgob annwyl!" meddai Parri. "Pam na wnaiff hi stopio?"

"Bobl y byd!" meddai Harri. "Mae'n anelu at y fferm."

"O diar," meddai Anneena. "Dwi ddim yn hoffi golwg hyn."




Rhuodd yr awyren ymlaen.

Rhedodd drwy'r golch. Gwasgodd y melonau a'r pwmpenni.

"Dyw hi ddim wedi stopio," gwaeddodd Parri. "Nawr beth wnawn ni?"

"Gobeithio bydd y tanwydd yn gorffen cyn hir," meddai Harri.






Anelodd yr awyren tuag at y dre.

Roedd gwraig yn paentio ei thŷ. Clywodd sŵn peiriant.

"Beth yn y byd yw hyn?" dyfalodd. "Mae'n swnio fel tarw yn rhuo."



Rhedodd yr awyren i mewn i'r ysgol a'i tharo i'r llawr.

Syrthiodd y wraig i'r ddaear. Roedd y brws paent yn dal yn ei llaw.

Aeth yr awyren yn ei blaen.

"Beth yn y byd oedd hynna?" ebychodd y wraig.







O'r diwedd stopiodd yr awyren yng nghanol y dre. Roedd wedi taro yn erbyn cerflun.

Rhedodd pobl i weld beth oedd wedi creu'r holl sŵn.

Stopiodd Harri a Parri y car. Neidiodd y ddau allan.

"Dyw hyn ddim yn edrych yn dda," meddai Parri.




Rhedodd Nadim ac Anneena i weld ble oedd yr awyren wedi stopio.

Siaradodd Nadim gyda Parri a Harri.

"Chi'n gweld!" meddai. "Mae'r sgriw yrru yn gweithio. Nawr mae angen ichi wneud fflapiau a llyw."







Yn sydyn roedd sŵn.  Roedd fel sŵn peiriant. Daeth y sŵn o'r awyr.

Edrychodd pawb i fyny. Roedd awyren yn hedfan uwchben y dre.

"Peiriant hedfan!" gwaeddodd rhywun.

"Awyr hen arall," chwarddodd Anneena.




Cododd y bobl eu dwylo a bloeddio. Chwifiodd peilot yr awyren arnyn nhw.

“Wn i pwy yw hwnna,” galwodd dyn. “Wilbur Wright yw e. Fe a’i frawd yw’r dynion cyntaf i hedfan.”

“Wel ar fy ngair!” meddai Harri.





“Felly nid ni yw’r dynion cyntaf i hedfan wedi’r cyfan,” meddai Harri. “Mae’r brodyr Wright wedi mynd cam o’n blaenau ni.”

“Paid â phoeni,” meddai Parri. “Mae gen i syniad am gwch sydd yn teithio o dan y dŵr.”

Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio. Roedd yn bryd i Nadim ac Anneena fynd.



“Sori ein bod wedi cymryd mor hir,” meddai Cad. “Roedd llawer o lestri i’w golchi.”

“Na hidiwch,” chwarddodd Anneena. “Hedfanodd yr amser heibio.”

“A nid amser oedd yr unig beth i hedfan,” chwarddodd Nadim.


Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 9
Rhagor o Storïau A

# Y Peiriant Hedfan

Mae Nadim ac Anneena yn teithio yn ôl mewn amser ac yn cyfarfod dau ddyfeisiwr rhyfedd.

Ai nhw ddyfeisiodd y peiriant hedfan cyntaf oll? Efallai ddim!



**Cam 9 Rhagor o Storïau A**
**Trefn ddarllen a argymhellir:**

Y Llygad Glas
Achub!
Antur yn yr Iseldiroedd
Y Gorau yn y Lle
Y Peiriant Hedfan
Trafferth gydag Allwedd

Addasiad Cymraeg gan
Juli Paschalis

ISBN 0-86174-855-7
9 780861 748556

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 2003
© Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2006
© Yr addasiad Cymraeg ACCAC

www.drakeeducational.com
DRAKE
Argraffwyd yng Nghymru